



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Wedi syrthio ar ei hôl hi gyda'ch rhent oherwydd COVID?

## Mae grant newydd ar gael a allai eich helpu.

Os ydych chi'n rhentu eich cartref ac wedi syrthio ar ei hôl hi gyda'ch rhent oherwydd COVID-19, efallai y byddwch yn gymwys ar gyfer grant newydd gan Lywodraeth Cymru.

**Mae'r Grant Caledi i Denantiaid yn cael ei dalu'n uniongyrchol i'ch landlord neu asiant, er mwyn helpu i glirio unrhyw rent sy'n ddyledus, a lleihau'r tebygolrwydd o gael eich troi allan o'ch cartref. Ni fydd angen i chi dalu'r grant hwn yn ôl.**

I wneud cais am y grant, rhaid i chi fod:

1. yn denant preswyl yng Nghymru
2. wedi profi caledi ariannol oherwydd y pandemig COVID-19 gan olygu nad oeddech yn gallu talu eich rhent yn llawn
3. wedi cronni o leiaf 8 wythnos o rent dyledus rhwng 1 Mawrth 2020 a 31 Rhagfyr 2021
4. heb dderbyn unrhyw fudd-daliadau tai pan wnaethoch chi gronni'r dyledion rhent.

Mae rhagor o wybodaeth am sut i wneud cais ar gael yma: [Grant Caledi i Denantiaid ar gyfer tenantiaid yn y sector rhentu preifat: y coronafeirws | LLYW.CYMRU](#).

## Cael cymorth arall

Os oes gennych ddyledion rhent, dylech wneud y canlynol:

- cysylltu â'ch awdurdod lleol cyn gynted â phosibl os ydych **mewn perygl o gael eich troi allan ac mewn perygl o fod yn ddigartref**. Efallai yr hoffech hefyd ddarllen y canllawiau ar **droi allan o'r cartref yn ystod y pandemig coronafeirws**
- siarad â'ch landlord i drafod eich dyledion rhent, a sut y gellid eu had-dalu
- cael cyngor a chymorth gan Shelter Cymru neu Cyngor ar Bopeth Cymru
- cael cyngor gan eich awdurdod lleol os ydych yn derbyn budd-daliadau. Efallai y byddwch yn gallu cael cymorth ariannol drwy Daliadau Disgresiwn at Gostau Tai i dalu dyledion rhent, neu gymorth arall i dalu biliau eraill y cartref.

**Cyngor ar Bopeth** – 0808 278 7920

**Shelter Cymru** – 08000 495 495